# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

**RHAN 1** E+W

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

**PENNOD 2** E+W

COFRESTRU ETC. DARPARWYR GWASANAETHAU

*Ymgeisio, amrywio a chanslo cofrestriad*

**6 Cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth** E+W

(1) Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais ar gyfer cofrestru i Weinidogion Cymru—

(a) sy'n pennu'r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'r person yn dymuno ei ddarparu,

(b) sy'n pennu'r mannau y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy,

(c) sy'n dynodi unigolyn fel yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â phob un o'r mannau hynny ac sy'n datgan enw a chyfeiriad pob unigolyn o'r fath (mae adran 21 yn nodi pwy y caniateir iddo gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol), a

(d) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.

(2) Rhaid i gais fod ar y ffurf ragnodedig.

(3) Caiff person sy'n dymuno cael ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â dau neu ragor o wasanaethau rheoleiddiedig wneud un cais mewn cysylltiad â hwy.

## Addasiadau (ddim yn newid testun)

**C1** Rhn. 1 cymhwysol (gydag addasiadau) (29.4.2019) gan Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/762), rhlau., 57(3)

**C2** Rhn. 1 cymhwysol (gydag addasiadau) (29.4.2019) gan Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/165), rhlau. 1(2), **58(3)**

**C3** Rhn. 1 cymhwysol (gydag addasiadau) (29.4.2019) gan Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/163), rhlau. 1(2), **67(3)**

**C4** Rhn. 1 cymhwysol (gydag addasiadau) (29.4.2019) gan Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/169), rhlau. 1(2), **71**

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 6 mewn grym ar 1.2.2018 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/1326, **ergl. 2(1)**(2) (ynghyd ag erglau. 3-15)

**I3** A. 6 mewn grym ar 29.4.2019 at ddibenion penodedig gan O.S. 2019/864, **ergl. 2(1)**(2)

**I4** A. 6 mewn grym ar 23.2.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/181, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 6.